# LC1383

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (O.S. 1999/293) ("Rheoliadau 1999") drwy weithredu erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2003/35/EC i'r graddau y mae'n effeithio ar gyfranogiad cyhoeddus yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau ac apelau sy'n ymwneud â datblygu y mae'n ofynnol asesu ei effeithiau amgylcheddol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y pwyntiau isod eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 25(4) o Reoliadau 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sydd wedi cyhoeddi hysbysiad anfon copi ohono i'r Cynulliad ac i'r cyrff ymgynghori. Mae rheoliad 14(a) o'r Rheoliadau presennol yn ychwanegu trydedd elfen at y gofyniad hwnnw, sef anfon copi at "any particular person". Mae rheoliad 3(a) yn diffinio "any particular person" fel pe bai'n cynnwys sefydliadau anllywodraethol sy'n ymwneud ag amddiffyn yr amgylchedd. O gynnwys sefydliadau o'r fath, nid yw'n eithrio pobl benodol eraill [‘other "particular" persons’] na chânt eu diffinio. Nid yw hyn yn foddhaol gan fod rheoliad 25(4) yn ei gwneud yn ofynnol anfon copi at bobl na chânt eu diffinio. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 19 o Reoliadau 1999 sy'n ymwneud â

gwybodaeth bellach a thystiolaeth ["further information and evidence"]. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 10, cyfieithwyd yr ymadrodd Saesneg drwy roi "gwybodaeth a thystiolaeth bellach" fel pe bai'r gair "bellach" yn berthnasol i'r wybodaeth a'r dystiolaeth. Mewn gwirionedd mae "gwybodaeth bellach" ["further information"] yn derm a ddiffinnir yn rheoliad 19 ac mae "tystiolaeth" ["evidence"] yn gysyniad ar wahân. Y cyfieithiad cywir felly yw "gwybodaeth bellach a thystiolaeth". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r rhain yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Tachwedd 2006